

## Y SENEDD

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.00 ar 22 MAWRTH 2017, yn y Brif Neuadd, Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol.**

Yn bresennol: Yr Athro John Grattan, Is-Ganghellor Dros-dro (Cadeirydd); Ms Rebecca Davies, Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu); Dr Rhodri Llwyd Morgan, Dirprwy Is-Ganghellor (Y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol); Yr Athro Judy Broady-Preston, Cyfarwyddwr Athrofa ADP; Yr Athro Neil Glasser, Cyfarwyddwr ADHGS; Yr Athro Mike Gooding, Cyfarwyddwr IBERS; Yr Athro Qiang Shen, Cyfarwyddwr AMFfC; Yr Athro Tim Woods, Cyfarwyddwr ACD; Dr Elin Royles, Cadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (CCC); Yr Athro Reyer Zwigelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion (tan gofnod 57); Dr Guy Baron; Dr Hazel Davey; Dr David Dowell; Yr Athro Andrew Evans; Dr Gwion Evans; Mr Nigel Hardy; Dr Anwen Jones; Dr Louise Marshall; Dr Jenny Mathers; Dr Ola Olusanya; Yr Athro Martyn Powell; Yr Athro Malcolm Thomas; Mr Tim Davies; Ms Louise Jagger; Mr Rhun Dafydd, Llywydd UMCA; Ms Lauren Marks, Llywydd UMABer; a Mr Ryan Myles, Swyddog Addysg UMABer.

Yn gweinyddu: Mrs Kim Broom, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mrs Lucy Hodson, Cyfarwyddwr Cynllunio; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; a Ms Emma Williams, Cyfarwyddwr y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Dr Gordon Allison; Yr Athro Rhys Jones; Dr Rachel Rahman; Dr Simon Rodway; Mr Daniel Benham, Y Cyfarwyddwr Cyllid; a Ms Susan Chambers, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol.

### 41. MATERION PERSONOL A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

#### 1. Is-Ganghellor Dros-dro

Hwn fyddai cyfarfod olaf y Senedd i'r Athro John Grattan fel Is-Ganghellor Dros-dro. Diolchodd i'r aelodau am eu hagwedd gadarnhaol tuag at waith y corff llywodraethu academaidd yn ystod ei gyfnod yn Gadeirydd y Senedd.

#### 2. Llongyfarchiadau

Llongyfarchwyd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth ar gael ei henwi'r Undeb Myfyrwyr Addysg Uwch orau yng Nghymru yng ngwobrau Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru yn ddiweddar.

#### 3. Cydymdeimlad

Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

1. Rhiannon Hughes, cyn aelod o staff Gwasanaethau Gwybodaeth;
2. Yr Athro J P Clancy, Cymrawd er Anrhydedd ym Mhrifysgol Aberystwyth (PA).

### 42. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

#### 43. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2016 (SEN1617-044).

NODWYD

1. Eglurwyd bod y drafodaeth ynghylch swyddogaeth Pennaeth Adran wedi'i godi yng nghofnod 40.5 yng nghyd-destun arferion o fewn y Brifysgol yn gyffredinol ac nid yn gysylltiedig yn benodol ag Athrofa Daearyddiaeth, Hanes, Gwleidyddiaeth, a Seicoleg. Cytunwyd nad oedd angen newid y cofnod.

**PENDERFYNWYD**

2. Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

#### 44. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN1617-045).

NODWYD

1. Rheolau a Rheoliadau (2015-16 cofnod 82)

Adroddwyd wrth gyfarfod diwethaf y Senedd na fyddai newidiadau'n cael eu cynnig i'r rheoliadau ynghylch blwyddyn mewn diwydiant neu flwyddyn dramor. Gellid cofnodi statws 'Cwblhawyd' felly ar gyfer yr eitem benodol hon.

2. Y diweddariad a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

#### 45. GOHEBIAETH

1. Canlyniad ail arolwg o'r Ganolfan Addysg Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru gan Estyn

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol, yn ymgorffori llythyr oddi wrth Estyn at yr Is-Ganghellor Dros-dro, dyddiedig 30 Tachwedd 2016 (SEN1617-046).

NODWYD

1. Cafodd Canolfan Addysg Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru wybod gan Estyn y byddai ail arolwg yn cael ei gynnal yn ystod wythnos gyntaf Mehefin 2017, er mwyn gweld a fu cynnydd pellach yng nghyswllt yr argymhellion a wnaed yn dilyn arolwg mis Mai 2015.
  2. Ar wahân i hyn, roedd Llywodraeth Cymru yn gweithio i ad-drefnu'r ffordd y mae hyfforddiant athrawon yn cael ei ddarparu yng Nghymru. Mae PA yn ystyried cyfleoedd yn hyn o beth gyda golwg ar gyflwyno cais i fod yn un o'r darparwyr.
2. Aelod Senedd yr adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol

NODWYD

Roedd Dr Jenny Mathers wedi rhoi arddeall i Ysgrifennydd y Brifysgol y byddai'n rhoi'r gorau i fod yn gynrychiolydd yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol ar y Senedd ar ddiwedd ei chyfnod yn un o gynrychiolwyr y corff llywodraethu academiaidd ar y Cyngor 31 Gorffennaf 2017. Byddai trefn penodi cynrychiolydd newydd o'r adran i'r Senedd yn cael ei hystyried yn nes ymlaen yn ystod y cyfarfod.

#### **46. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR DROS-DRO**

NODWYD

1. Mynegodd yr Is-Ganghellor Dros-dro ei ddiolch i aelodau'r Senedd am y ffordd yr oeddent wedi ymagweddu at waith y corff llywodraethu academiaidd dros y 14 mis diwethaf. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd y Senedd wedi gweithio i wella bodlonrwydd myfyrwyr. Roedd hyn nawr yn dwyn ffrwyth trwy berfformiad gwell yn y tablau cynghrair dros y misoedd diwethaf, ac yn y gwobrau y cafodd PA ei rhoi ar y rhestr fer ar eu cyfer - y diweddaraf o'r rhain oedd pump o enwebiadau yn y Gwobrau *WhatUni?* arfaethedig.
2. Byddai'r misoedd nesaf yn rhai heriol i PA wrth iddi geisio gweithredu ar sylfaen mwy cynaliadwy yn dilyn gostyngiad yn nifer y myfyrwyr ers rhai blynyddoedd. Yn rhan o hyn fydd y Cynllun Trawsnewid sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i fod yn Gynllun Gweithredu Cynaliadwyedd (CGC). Serch hynny, gobaith yr Is-Ganghellor Dros-Dro oedd y byddai'r CGC yn nodi meysydd twf i'r un graddau â dulliau o weithredu mwy effeithlon.

#### **47. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYNLLUNIO**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (SEN1617-047).

NODWYD

1. Roedd darlun cliriach o sefyllfa ceisiadau amser llawn Cartref / UE yn dod i'r golwg am fynediad ym mis Medi 2017 ac roedd sylw'r Brifysgol yn awr yn canolbwyntio ar drosglwyddo'r ceisiadau'n dderbyniadau. Roedd y gweithgareddau trosi'n cael eu atgyfnerthu gan amserlen lem o weithgareddau a rhaglen sydd wedi cynyddu'n sylweddol yn ganolog ac yn adrannol ers y llynedd.
2. Er nad oedd y Brifysgol wedi mynd i mewn i Ran Dau'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (FfRhY), cafodd gweithgor ei sefydlu i ystyried a ddylai'r sefydliad gymryd rhan yn Rhan 3 y FfRhY yn dilyn cyhoeddiadau pellach ar y mater gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr.
3. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'n ddiweddar y byddai benthyciadau ar gael i uwchraddedigion sy'n byw yng Nghymru o flwyddyn academiaidd 2017-18, ac i fyfyrwyr o'r UE mewn prifysgolion yng Nghymru. Roedd benthyciadau o'r fath eisoes ar gael i fyfyrwyr yn byw yn Lloegr. Roedd cynllun hyrwyddo a throsi uwchraddedig bellach yn cael ei ddatblygu er mwyn cynyddu nifer myfyrwyr ar gynlluniau gradd uwchraddedig.
4. Er bod PA yn parhau i berfformio'n well na'r meincnod cenedlaethol, roedd y sefydliad wedi gweld cynnydd yn niferoedd myfyrwyr yn tynnu'n ôl. Roedd agweddau priodol o Gynllun Llwyddiant y Myfyrwyr yn rhoi sylw i hyn.

#### **48. CYNLLUN LLWYDDIANT Y MYFYRWYR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Tim Woods, Cyfarwyddwr Athrofa'r Celfyddydau a'r Dyniaethau; a Debbie Prysor, Uwch Swyddog Prosiectau (SEN1617-048).

## NODWYD

1. Cyflwynwyd dwy ffrwd newydd at y Cynllun ers cyfarfod diwethaf y Senedd; sef y *Cynllun Mentora Israddedig Adrannol PA*; a'r *Grŵp Uwchraddedig*. Cafodd y ffrwd Dechnegol (Cadw Myfyrwyr) ei hail-enwi hefyd, Dadansoddeg Dysgu (Cadw Myfyrwyr).
2. Er bod ystyriaeth wedi'i roi i gyflwyno model Cyfartaledd Pwynt Graddfa (CPG) yn PA, nid oes bwriad ar hyn o bryd i ddisodli'r fframwaith dosbarthiadau cyfredol a'r rhaeadr gysylltiedig. Ond, mae'n bosibl y gellid profi model CPG ochr yn ochr â'r drefn gyfredol, a gofyn i'r Senedd roi barn derfynol fel sy'n briodol ar ôl cynnal y prawf hwnnw.

## 49. CYNLLUN GWELLA DYSGU AC ADDYSGU

### DERBYNIWYD

Adroddiad o'r Bwrdd Academaidd (SEN1617-049).

### NODWYD

1. Argymhellwyd gan Arolwg Sefydliadol yr ASA yn ystod 2016 y dylai PA gadarnhau a disgrifio ei blaenoriaethau strategol ar gyfer gwella cyfleoedd dysgu ac addysgu. Mewn ymateb i hyn, cafodd cynllun o'r enw Asesiad Trawsffurfiol ar gyfer Llwyddiant Myfyrwyr ei ddatblygu i roi strategaeth gyffredinol i'r Sefydliad yn y cyswllt hwn. Cafodd y cynllun ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Academaidd ar 08 Mawrth 2017.
2. Mae'r cynllun yn ceisio rhoi sylw i nifer o faterion cysylltiedig ag asesu, adborth, ac arholiadau; yn ogystal â'r rhyngweithio rhwng Pwyllgorau Gwella Dysgu ac Addysgu ar lefel sefydliadol, a'r Bwrdd Academaidd.
3. Yn rhan o'r ffrwd Technoleg, rhoddir ystyriaeth i ddarparu gwybodaeth amser real i fyfyrwyr ar eu cynnydd trwy gyfrwng marc 'cyfartaledd ar y pryd'. Esboniwyd y gwahaniaeth rhwng CPG a 'chyfartaledd ar y pryd'. Adroddwyd bod sefydliadau eraill wedi gweld gwelliant ym mherfformiad myfyrwyr ar ôl cyflwyno 'cyfartaledd ar y pryd'. Pwysleisiodd yr aelodau serch hynny pa mor bwysig yw rhoi adborth parod i fyfyrwyr yn ogystal â graddau.

## 50. DARPARIAETH GYDWEITHREDIADOL

### DERBYNIWYD

Adroddiad gan Bennaeth y Ddarpariaeth Gydwethrediadol (SEN1617-050).

### NODWYD

1. Ar 08 Mawrth 2017, ystyriodd y Bwrdd Academaidd ddrafft y Cytundeb Gradd Ddeuol rhwng yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol ym Mhrifysgol Aberystwyth a'r Ysgol Gwasanaeth Rhyngwladol yn yr *American University*. Roedd y ddogfen yn defnyddio gwybodaeth o ymweliad safle cynharach a wnaed, ac roedd canlyniadau'r ymweliad hwnnw wedi'u hadrodd wrth y Bwrdd Academaidd.
2. O ystyried bod yr amodau a oedd yn weddill o rai'r panel Cymeradwyo Rhaglen wedi eu datrys, argymhellodd y Bwrdd y dylai'r Senedd gymeradwyo'r Cytundeb Gradd Ddeuol, yn amodol ar: cael cymeradwyaeth derfynol i'r Rhaglen gan Gadeirydd y panel; a gwiriadau cyfreithiol terfynol o'r Cytundeb drafft.

## PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo drafft y Cytundeb Gradd Ddeuol, yn ddarostyngedig i'r amodau a nodwyd gan y Bwrdd Academaidd (**GWEITHREDU**: Pennaeth y Ddarpariaeth Gydweithrediadol).

## 51. STRATEGAETH UWCHRADEDIG

### DERBYNIWYD

Drafft o strategaeth gan Bennaeth Ysgol y Graddedigion; Cyfarwyddwr yr Athrofa Datblygu Proffesiynol; a'r Cyfarwyddwr Cynllunio (SEN1617-051).

### NODWYD

1. Bwriad y Strategaeth ddrafft - a baratowyd gan academyddion - yw rhoi PA mewn sefyllfa i gynyddu ei darpariaeth uwchraddedig ac ar yr un pryd i fabwysiadu model gynaliadwy wrth ei chyflenwi yng ngoleuni fframwaith ffioedd am astudiaeth uwchraddedig.
2. Byddai'r Strategaeth ddrafft yn ategu'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu yn ogystal â'r cynllun academaidd cyfrwng Cymraeg. Byddai angen ychydig o ddiwygio i ddrafft y Strategaeth Uwchraddedig er mwyn cyfeirio'n well at y cynllun cyfrwng Cymraeg (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Cynllunio).
3. Pwysleisiodd yr aelodau'r angen i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i hyrwyddo darpariaeth uwchraddedig y Brifysgol fel y gall y Strategaeth ddrafft lwyddo.

## PENDERFYNWYD

4. Argymhell y dylai'r Cyngor gymeradwyo drafft y Strategaeth Uwchraddedig (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).
5. Y dylai diweddariad ar y drafodaeth gyfredol yng nghyswllt 'Addysgu i Uwchraddedigion ym Mhrifysgol Aberystwyth' gael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Senedd (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Athrofa Datblygu Proffesiynol).

## 52. RHEOLAU A RHEOLIADAU

### DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1617-052).

### NODWYD

1. Ar 08 Mawrth 2017, ystyriodd y Bwrdd Academaidd ddiwygiadau i'r Rheolau a Rheoliadau canlynol, ac argymhell y dylai'r Senedd eu cymeradwyo: Rheoliadau MProf; Rheoliadau Diploma Graddedig; a Throsoglwyddo Credydau i Gynlluniau Cyfnewid Myfyrwyr.
2. Roedd y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion wedi ymgynghori ag Athrofeydd ynglŷn â chynigion a oedd yn dechrau cael eu crybwyll i ddod â'r arfer o drosglwyddo marciau o raglenni cyfnewid, ac mai dim ond credydau a fyddai'n cael eu cynnwys yn nosbarthiad y radd derfynol. Dim ond i garfanau newydd o fyfyrwyr y câi hyn ei roi ar waith. Cafodd yr adborth ei ystyried gan y Bwrdd Academaidd ar 08 Mawrth 2017, lle'r argymhellodd yr aelodau y dylai'r Senedd gymeradwyo'r cynnig i ddwyn i ben yr arfer o Drosglwyddo Credydau i Raglenni Cyfnewid.

3. Pe byddai unrhyw unedau academiaidd yn dymuno parhau â'r arfer o drosglwyddo marciau o raglenni cyfnewid, byddai'n rhaid iddynt o hyn ymlaen ddod i gytundeb ffurfiol â'r sefydliadau partner. Mae cytundebau o'r fath eisoes yn bod mewn sawl achos.

#### **PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwyo'r newidiadau a gynigiwyd i'r Rheoliadau MProf; a'r Rheoliadau Diploma Graddedig (**GWEITHREDU:** Uwch Swyddog Ansawdd, Swyddfa Ansawdd Academiaidd a Chofnodion);
5. Cymeradwyo mewn egwyddor gynigion i ddwyn i ben yr arfer o Drosglwyddo Credydau i Raglenni Cyfnewid, a gofyn am adroddiad i'w gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cyngor i ddweud sut y byddai hyn yn gweithio yn ymarferol gyda'r Drefn Raeadru (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr y Swyddfa Ansawdd Academiaidd a Chofnodion).

### **53. CYNRYCHOLAETH AC ETHOLIADAU'R SENEDD**

#### **DERBYNIWYD**

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1617-053).

#### **NODWYD**

1. Ar hyn o bryd, cynrychiolwyr y Senedd ar y Cyngor yw Dr Hazel Davey, Yr Athro Neil Glasser, a Dr Jenny Mathers. Byddai'r tri ohonynt yn dod i ben eu cyfnod cyfredol ar 31 Gorffennaf 2017, ac yn awr fe gynhelir etholiad yn unol ag Ordinhad 13.
2. Yn ei gyfarfod ar 16 Chwefror 2017, roedd y Pwyllgor Siarter wedi ystyried cynigion i leihau maint y Cyngor, a fyddai yn ei dro yn arwain at ad-drefnu cydbwysedd y corff llywodraethu. Cafodd y cynigion eu hadrodd ar lafar i'r Cyngor y diwrnod canlynol, lle gofynnodd yr aelodau i'r Pwyllgor ailystyried y mater pan fyddai'r Athro Elizabeth Treasure wedi dechrau yn swydd Is-Ganghellor y Brifysgol.
3. Byddai cyfnod yr Athro Andrew Evans yn gynrychiolydd yr Adran Ffiseg ar y Senedd yn dod ben ar 31 Awst 2017. Roedd Dr Jenny Mathers wedi rhoi arddeall i Ysgrifennydd y Brifysgol ei bod yn dymuno rhoi'r gorau i fod yn gynrychiolydd yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol ar y corff llywodraethu academiaidd ar 31 Gorffennaf 2017 wrth i'w chyfnod ddod i ben. Cynhelir etholiad yn awr i benodi cynrychiolwyr o'r adrannau hyn ar y Senedd yn unol ag Ordinhad 19.
4. O 01 Awst 2017, byddai nifer o leoedd gwag yn agor i gynrychioli'r Senedd ar is-bwyllgorau llywodraethu allweddol. Cynigiwyd y dylai proses i'w llenwi ddechrau ar ôl i'r etholiadau eraill a ddisgrifir uchod gael eu cwblhau.
5. Ar 18 Hydref 2016, roedd y Senedd wedi gwahodd Cyfarwyddwr Athrofa Datblygiad Proffesiynol (ADP) ac Ysgrifennydd y Brifysgol i ystyried cynrychiolaeth ar y Senedd o'r Athrofa honno'n gyffredinol a dod ag argymhelliad i gyfarfod yn y dyfodol. Yn dilyn trafodaethau, cynigiwyd y dylid penodi un cynrychiolydd o blith staff academiaidd ADP i gynrychioli'r Athrofa ar y Senedd, yn unol â'r model a ddefnyddiwyd yn achos IBERS.

#### **PENDERFYNWYD**

6. Cymeradwyo'r amserlenni arfaethedig ar gyfer ethol (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol):
  1. Aelodau'r Senedd ar y Cyngor;
  2. Aelodau ar y Senedd o'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol a'r Adran Ffiseg; ac

3. Aelodau'r Senedd ar is-bwyllgorau;
7. Y byddai'r Senedd yn fodlon ystyried gostyngiad cymesur yn nifer ei haelodau ar y Cyngor yn unol â'r gostyngiad cyffredinol yn nifer aelodau'r Cyngor (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).
8. Cymeradwyo mewn egwyddor gynigion am aelod etholedig o Athrofa Datblygiad Proffesiynol, a gofyn i ddiwygiadau dilynol i Ordinhad 18 gael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf y Senedd i'w hystyried (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

#### **54. SIARTER Y MYFYRWYR**

##### DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1617-054).

##### NODWYD

1. Ar 08 Mawrth 2017, cafodd Datganiad Blynyddol gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth ei ystyried gan y Bwrdd Academiaidd. Roedd copi o'r Datganiad wedi'i roi ar Sharepoint (SEN1617-063).
2. Yn rhan o'r adroddiad, cadarnhaodd Undeb y Myfyrwyr nad oedd yn dymuno cynnig diwygiadau i siarter y Myfyrwyr hyd nes y ceir cytundeb ar strategaeth arfaethedig UMAber.

#### **55. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYDRADDOLDEB**

##### DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cydraddoldeb, yn ymgorffori Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb am 2015-16, a Chynllun Strategol Gweithredu Cydraddoldeb (SEN1617-055).

##### NODWYD

1. Yn unol â gofynion statudol Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Gyhoeddus 2011 Cymru, mae'n rhaid i'r Brifysgol gyhoeddi adroddiad blynyddol yn manylu ar y modd mae'n cydymffurfio â'r dyletswyddau hyn. Mae'r Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb yn disgrifio'r cynnydd mae Prifysgol Aberystwyth yn ei wneud wrth ymwreiddio cydraddoldeb ac amrywioldeb yn y sefydliad, ac wrth hybu diwylliant ac amgylchedd sy'n gynhwysol i'w myfyrwyr, ei staff ac i'r gymuned ehangach sy'n defnyddio ei hadnoddau a'i gwasanaethau.
2. Cafodd drafft yr adroddiad blynyddol ei ystyried gan aelodau o'r Pwyllgor Datblygu Proffesiynol, Staffio a Chydraddoldeb ar 10 Mawrth 2017 ac argymhellwyd y dylid ei gymeradwyo'n amodol ar fân newidiadau.
3. Cafodd fersiwn ddiweddaraf Cynllun Strategol Gweithredu Cydraddoldeb (2016-20) hefyd ei ddsbarthu er gwybodaeth.

##### PENDERFYNWYD

4. Argymell y dylai'r Cyngor gymeradwyo drafft Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb am 2015-16, yn amodol ar ail-eirio un frawddeg ar frig tudalen tri: "Gan ein bod yn Brifysgol yng Nghymru, byddwn hefyd yn cydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg" (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Cydraddoldeb).

5. Wrth baratoi fersiynau o Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb yn y dyfodol, dylid rhoi ystyriaeth i'r ffordd y mae rhywedd ar hyn o bryd yn cael ei ystyried yn beth deuaidd (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Cydraddoldeb).
6. Annog y Cyfarwyddwr Cydraddoldeb i weithio gyda Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg i rannu data sydd wedi'i gywain ar gyfer fersiynau o Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb yn y dyfodol (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Cydraddoldeb; a Rheolwr Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg).

## **56. ADRODDIAD MONITRO'R CYNLLUN IAITH GYMRAEG**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg (SEN1617-056).

NODWYD

1. Yn unol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, Comisiynydd yr Iaith sy'n gyfrifol yn awr am gymeradwyo a monitro Cynlluniau Iaith Gymraeg. Disgwylir i brifysgolion yng Nghymru gyflwyno adroddiadau monitro blynyddol i'r Comisiynydd ym Mawrth/Ebrill i adrodd ynglŷn â'u cydymffurfiaeth â'u Cynlluniau Iaith y cytunwyd arnynt. Seiliwyd yr adroddiad a gyflwynwyd ar y cyfnod Medi 2015 - Awst 2016.

**PENDERFYNWYD**

2. Argymhell y dylai'r Cyngor gymeradwyo drafft yr Adroddiad Monitro, yn amodol ar wirio bod cyfnodau'r contractau gyda'r Knowledge Partnership ac Old Bell 3 i sicrhau eu bod yn gywir (**GWEITHREDU**: Rheolwr Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg).

## **57. ADRODDIAD O'R COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gadeirydd Cangen PA y CCC (SEN1617-057)

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf y datblygiadau yng nghanen PA y CCC ers y cyfarfod diwethaf.

## **58. ADRODDIAD BLYNYDDOL APELIADAU A CHWYNION ACADEMAIDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn rhoi gwybodaeth ynglŷn ag 'Apeiliadau Israddedigion ac Uwchraddedigion 2016', a 'Chwynion Myfyrwyr' Ionawr - Rhagfyr 2016' (SEN1617-058).

NODWYD

Cafodd yr adroddiadau eu hystyried gan y Bwrdd Academaidd yn ei gyfarfod ar 08 Mawrth 2017.

## **59. ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD, DIOGELWCH A'R AMGYLCHEDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gydlynnydd Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (SEN1617-059).

NODWYD



Cafodd Adroddiad Blynyddol Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd 2016 ei baratoi i roi crynodeb o'r prif weithgareddau'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a'r amgylchedd yn y Brifysgol yn y flwyddyn a aeth heibio. Cafodd yr Adroddiad Blynyddol ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd ar 17 Chwefror 2017.

#### **60. CRYNODEB O'R GOFRESTR RISG CORFFORAETHOL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (SEN1617-060).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad grynodeb o'r risgiau arwyddocaol o'r Gofrestr Risg Corfforaethol.

#### **61. GRANTIAU YMCHWIL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1617-061).

NODWYD

Dyfarnwyd nifer o grantiau ymchwil i aelodau staff PA ers cyfarfod diwethaf y Senedd.

#### **62. ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU**

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys yr adroddiadau canlynol (SEN1617-062):

1. Y Bwrdd Academaidd (08 Mawrth 2017);
2. Y Cyngor (18 Hydref a 29 Tachwedd 2016);
3. Pwyllgor Cyllid a Strategaeth (11 Tachwedd 2016 a 03 Chwefror 2017);
4. Pwyllgor Datblygu Proffesiynol, Staffio a Chydraddoldeb (04 Tachwedd 2017);
5. Pwyllgor Strategaeth y Gymraeg (04 Tachwedd 2017);
6. Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol (04 Tachwedd); a'r
7. Pwyllgor Siarter (16 Chwefror 2017);

NODWYD

8. Y Bwrdd Academaidd (08 Mawrth 2017);

Bod gweithgor wedi'i sefydlu i ddechrau drafftio Strategaeth Dysgu ac Addysgu newydd y Brifysgol.

9. Yr adroddiadau a dderbyniwyd o'r is-bwyllgorau eraill.

#### **63. UNRHYW FATER ARALL**

1. Presenoldeb

NODWYD

Ers cyflwyno System Monitro Presenoldeb Myfyrwyr, roedd yn ymddangos bod sefyllfa presenoldeb wedi gwaethygu. Nid oedd modd cymharu'r sefyllfa â blynyddoedd academaidd blaenorol am mai hon oedd blwyddyn gyntaf cofnodi presenoldeb yn ffurfiol. Ond, roedd y sefyllfa'n cael ei chadw dan sylw.

2. Partneriaethau Tramor

NODWYD

Cafodd aelodau eu hatgoffa o bwysigrwydd sicrhau bod y prosesau perthnasol ar gyfer sicrhau ansawdd wedi'u cwblhau cyn dechrau hyrwyddo cynlluniau gradd a ddarperir trwy gyfrwng partneriaethau tramor.

3. Is-Ganghellor Dros-dro

NODWYD

Diolchodd yr aelodau i'r Athro John Grattan am ei arweiniad o'r Senedd yn ystod ei gyfnod yn Is-Ganghellor Dros-dro.